# The Cat Manifesto

# Manififfesto i Gathod

English

Cymraeg



CATS PROTECTION

# Cynnwys

## Trosolwg ar y manifffesto

### Rhoi'r bywyd gorau i gathod

1. Rheoleiddio bridio
2. Gwahardd yr arfer o fridio cathod gyda nodweddion eithafol
3. Rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid
4. Rhoi diwedd ar weithgareddau anaddas sy'n cynnwys cathod, gan gynnwys caffis cathod
5. Rheoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â chathod, gan gynnwys cribo chathod

### Rhoi diwedd ar greulondeb at gathod

1. Creu trosedd benodol yn ymwneud â chŵn yn ymosod ar gathod
2. Gwahardd gwerthu a defnyddio dyfeisiau hyfforddi llawdrwm a chreulon
3. Gwneud dwyn cath yn drosedd benodol

### Diogelu cathod yn y byd digidol

1. Tynhau'r rheolau ar werthu cathod ar-lein
2. Galw ar hysbysebwyr a'r cyfryngau i ddangos cathod mewn ffordd gyfrifol
3. Annog cwmnïau cyfryngau cymdeithasol i gymryd cynnwys niweidiol o gathod o ddifrif

### Cydnabod bod cathod yn deulu

1. Cyflwyno rheolau i'w gwneud yn orfodol i osod microsglodion ar gathod anwes a chyflwyno un man chwilio ar gyfer cronfeydd data microsglodion
2. Annog landlordiaid i gynnig tai rhent sy'n addas i anifeiliaid anwes
3. Cynnwys lles anifeiliaid yn y cwricwlwm
4. Cydnabod manteision cathod i les pobl
5. Codi ymwybyddiaeth o'r broblem o bobl yn 'celcio' cathod ac yn cadw gormod o gathod mewn tŷ

### Cadw cathod yn ddiogel

1. Annog cwmnïau i roi gwell labeli ar gynhyrchion gwenwynig fel lilis
2. Cyfyngu ar ddefnyddio tân gwyllt

# Trosolwg ar y maniffesto



Mae Cats Protection yn ymgyrchu i sicrhau nad yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn anghofio am gathod. Yn anffodus, mae llawer o gathod yn dal i ddioddef creulondeb, esgeulustod ac amodau lles gwael.

Rydyn ni'n ymgyrchu ar feysydd sy'n berthnasol i les cathod er mwyn gwella bywydau cathod a'u hamddiffyn rhag niwed.

**Rydyn ni'n benderfynol o fod yn gefn i bob cath sydd ein hangen ni, ni waeth pa mor anodd yw'r amgylchiadau.**

# Rhoi'r bywyd gorau i gathod



Dylai pob cath yng Nghymru gael y dechrau gorau a mynd ymlaen i gael y gofal gorau gydol eu hoes. Mae cathod pedigri yn dod yn fwy poblogaidd, felly mae mwy o bobl yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wneud elw ar draul lles cathod a chathod bach. Weithiau, gall hyd yn oed pobl sydd â bwriadau da niweidio cathod drwy eu cartrefu mewn ffordd amhriodol. Mae Cats Protection yn galw am newidiadau i'r gyfraith i roi'r bywyd gorau posibl i gathod.

- **Cyflwyno rheoliadau bridio cathod** i ddiogelu lles cathod a chathod bach
- **Gwahardd yr arfer o fridio cathod gyda nodweddion eithafol** sy'n achosi poen a dioddefaint
- **Rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid** i ddiogelu anifeiliaid sydd dan eu gofal
- **Mynd i'r afael â gweithgareddau sy'n niweidiol i gathod,** fel caffis cathod, ioga cathod a gofal dydd i gathod. Mae'r rhain yn dod yn fwyfwy poblogaidd a rhaid rhoi cyfyngiadau arnynt
- **Rheoleiddio'r rheini sy'n trefnu gweithgareddau sy'n ymwneud â chathod,** fel pobl sy'n cribo cathod ac yn gwarchod cathod, a diweddaru rheoliadau lletyau cathod

# 1. Rheoleiddio bridio

## Y broblem

Yn wahanol i fridio cŵn, does yna'n dal ddim rheoliadau ar gyfer bridio cathod yng Nghymru. Mae cathod yn cael eu bridio heb fesurau diogelu digonol. Gall cathod benyw sy'n sâl gael eu defnyddio i fridio'r ormodol ohonynt, a rhoi genedigaeth i dorllwythi drosodd a drosodd mewn amodau gwael a chynhyrchu cathod bach sy'n sâl ac yn cario clefydau. Gall cathod magu gwryw hefyd ddioddef amodau lles gwael, drwy gael eu cadw mewn lle annigonol heb yr eitemau hanfodol, fel bocs carthion a powlen fwyd, na chyfle i arddangos eu greddf a'u hymddygiad naturiol.



## Pam bod hyn yn bwysig

Yn anffodus, mae rhai pobl sy'n ceisio elwa o fridio cathod yn poeni mwy am wneud arian nag am les y cathod y maent yn eu bridio. Mae Cats Protection yn poeni bod hyn yn dod yn fwyfwy cyffredin, o ystyried y gallai cathod bach gael eu gwerthu am filoedd o bunnoedd, yn enwedig os ydynt yn rhai pedigri.

**Gwelwyd cynnydd mawr mewn cathod pedigri: Am y tro cyntaf, prynwyd mwy o gathod pedigri na chathod arferol yn ystod y 12 mis diwethaf.**[1]

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn rhoi'r bywyd gorau i gathod, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i reoleiddio bridio fel gweithgaredd trwyddedig fel bod angen trwydded ar unrhyw un sy'n bridio dau neu fwy o dorllwythi bob blwyddyn (boed hynny gan un gath neu fwy nag un gath yn yr un safle).

Bydd amodau'r drwydded yn mynnu'r canlynol:

- ni ddylai un gath gael mwy na chwe thorllwyth yn ystod ei hoes a dim mwy na thri thorllwyth mewn cyfnod o ddwy flynedd
- ni ddylid bridio â chath fenyw ar ôl iddi droi'n chwech oed oherwydd y risg uwch o broblemau wrth esgor, diffygion yn y cathod bach a straen ffisiolegol

Mae Cats Protection, ynghyd â sefydliadau cathod a milfeddygon, wedi creu rhestr gyfeirio i helpu darpar berchnogion i sicrhau eu bod yn dewis cath fach hapus ac iach. Dyma'r **rhestr gyfeirio i ddewis cath fach**

[1] Cats Protection Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru 2025

# 2. Gwahardd yr arfer o fridio cathod gyda nodweddion eithafol

## Y broblem

Dros y 200 mlynedd diwethaf, mae cathod wedi cael eu bridio fwyfwy gyda nodweddion unigryw i wneud iddyn nhw edrych mewn ffordd benodol. Yn anffodus, mae'r nodweddion corfforol unigryw hyn yn datblygu'n fwyfwy eithafol a gormodol. Gall nodweddion corfforol eithafol achosi problemau iechyd a lles difrifol.

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae bridiau sydd â nodweddion eithafol yn aml yn cael eu hystyried yn arbennig o ddymunol a gall bridwyr eu gwerthu am lawer iawn o arian. Mae rhai nodweddion eithafol sy'n peri pryder yn cael eu gwneud yn boblogaidd gan enwogion a'r cyfryngau cymdeithasol; yn anffodus, nid yw'r cyhoedd bob amser yn ymwybodol o amodau iechyd a lles y cathod hyn a'r boen y gallent fod yn ei dioddef.

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn rhoi'r bywyd gorau i gathod, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- cyflwyno rheoliadau bridio cathod i wahardd yr arfer o fridio cathod sydd â nodweddion eithafol a allai gael effaith niweidiol ar eu hiechyd a'u lles neu ar iechyd neu les eu hepil
- gweithio gyda'r sector lles anifeiliaid i greu offeryn Asesu Iechyd Cynhenid ar gyfer cathod i helpu i fesur nodweddion eithafol
- gweithio gyda sefydliadau lles anifeiliaid, gan gynnwys Cats Protection, i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o broblemau lles ac ymddygiad bridiau eithafol penodol a hybridiau cathod gwyllt



# Cathod â nodweddion eithafol



Mae cathod **Clustiau Plyg yr Alban** yn adnabyddus am eu clustiau plyg a'u hedrychiad 'crwn'. Fodd bynnag, mae'r mwtaniad sy'n achosi'r glust blyg yn effeithio ar y corff cyfan ac yn rhoi i gathod Clustiau Plyg yr Alban broblemau iechyd difrifol sy'n achosi poen aruthrol a pharhaus i bob cath o'r brîd hwn.

Mae rhai pobl yn creu bod cathod Clustiau Plyg yr Alban yn dawel a digynnwrf ond y rheswm tebygol dros hyn yw eu bod mewn poen pan fyddant yn symud, yn neidio neu'n chwarae.



Mae gan gathod **Persia sydd â wynebau fflat** eithafol nodweddion 'pen-fyr' (pan fo'r cathod wedi'u bridio i fod â ffroen byr iawn a golwg 'wedi'i wasgu' ar eu hwyneb), ac mae'n ei gwneud yn anodd iddynt anadlu.

Hefyd:

- mae ganddynt lygaid sy'n gwthio allan sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o gael anaf a haint
- maen nhw'n fwy tebygol o gael dermatitis oherwydd plygiadau croen yr wyneb
- mae ganddynt hefyd ên anffurfiedig, sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o gael clefyd dannedd. Felly, mae bwyta ac ymolchi yn gallu bod yn boenus



Mae bridiau **hybrid cathod gwyllt egsotig** yn groesiad rhwng cathod domestig a chathod gwyllt egsotig. Mae'r broses baru a geni yn aml yn achosi perygl gwirioneddol i'r gath ddomestig (y fenyw). Mae tymer yr epil yn aml yn eu gwneud yn anaddas i fyw mewn amgylchedd domestig; maent yn arddangos ymddygiad tiriogaethol ac yn dioddef straen os cânt eu cadw fel anifeiliaid anwes yn y tŷ. Cathod gwyllt ydy'r rhain i bob pwrpas. Maent hefyd yn fygythiad i gathod cyfagos os gadewir iddynt grwydro'n rhydd y tu allan. Gall pris cathod bach hybrid egsotig fod yn filoedd o bunnoedd, ac mae hynny'n sbarduno'r galw am fridio cathod hybrid egsotig ac yn arwain at fewnforio cathod gwyllt egsotig yn anghyfreithlon ar gyfer bridio.

# Cathod â nodweddion eithafol



Mae cathod **XL Bully (a elwir hefyd yn gathod corrach-goblyn neu 'Dwelf')** yn frîd newydd sy'n peri pryder. Mae'r cathod hyn yn cael eu creu drwy groesi'r gath Sffincs, y gath Clustiau Cyrliog Americanaidd a'r Munchkin i gynhyrchu cath sy'n debyg i'r ci XL Bully. Mae'r cathod hyn yn dioddef o anffurfiadau corfforol, gan gynnwys coesau byr, dim blew, croen eithafol o grychlyd a chlustiau cyrliog. Maent yn debygol o ddioddef o gyflyrau croen poenus a phroblemau difrifol gyda'r cymalau, gan achosi poen aruthrol a pharhaus. Mae hyn oll yn atal y cathod hyn rhag ymddwyn yn y ffordd arferol sy'n hanfodol i'w lles, gan effeithio ar eu gallu i fyw bywyd o ansawdd da.



Mae gan **gathod Munchkin** fath o gorachedd ac maent yn dioddef o anffurfiadau ar y cymalau sy'n effeithio ar eu gallu i symud ac i ymddwyn fel cathod arferol. Yn aml, cânt broblemau gyda'r asgwrn cefn ac arthritis cynnar, gan achosi poen a thrallod.

Mae bridio ar gyfer anffurfiadau yn anfoesol ac yn achosi poen a dioddefaint annerbyniol. Nid yw cathod XL Bully, cathod Clustiau Plyg yr Alban na chathod Munchkin yn cael eu cydnabod gan y Cyngor sy'n Llywodraethu Bridwyr Cathod (GCCF) i'w cofrestru fel pedigri oherwydd y pryderon lles hyn. Ni ddylid hyrwyddo'r cathod hyn mewn unrhyw ffordd, er enghraifft, drwy'r cyfryngau cymdeithasol na drwy eu dangos mewn sioeau cathod. Ni ddylai'r cyhoedd brynu'r cathod hyn dan unrhyw amgylchiadau; mae gwneud hynny yn gwbl anghyfrifol, gan ei fod yn hyrwyddo poblogrwydd ac yn arwain at fwy o gathod gyda'r problemau hyn yn cael eu geni i ddioddef.

# 3. Rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid

## Y broblem

Mae sefydliadau lles anifeiliaid yn cynnwys unigolion neu sefydliadau sy'n derbyn anifeiliaid anwes agored i niwed yn rheolaidd, gyda'r bwriad o adsefydlu, ailgartrefu neu ddarparu gofal hirdymor. Er bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gofalu am anifeiliaid yng Nghymru fodloni'r safonau lles a'r ddyletswydd gofal a nodir yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006, nid oes dim rheoliadau penodol ar waith ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid.

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae sefydliadau sy'n cymryd anifeiliaid i'w gofal fel arfer yn gwneud hynny gyda'r bwriadau gorau. Ond weithiau gall safonau lles anifeiliaid mewn lleoliadau o'r fath fod yn ddiffygiol, efallai oherwydd diffyg hyfforddiant, adnoddau neu offer, neu oherwydd awydd i helpu mwy o anifeiliaid na all y sefydliad ymdopi â nhw

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn rhoi'r bywyd gorau i gathod, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid a chyflwyno set sylfaenol o safonau i ddiogelu lles yr anifeiliaid hynny. Byddai angen i hyn gael ei orfodi'n briodol gan arolygwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol
- dal i ymgysylltu â'r sector lles anifeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid
- cyflwyno cronfa ddata genedlaethol, gyhoeddus o sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig. Dylai hon amlinellu amodau perthnasol, er enghraifft, nifer yr anifeiliaid a ganiateir a'r math, a rhoi manylion unrhyw achos o dorri amodau trwydded neu ddirymu trwydded
- gwahardd cathod rhag cael eu cludo o dramor i gael eu hachub. Gall teithiau o'r fath achosi straen i gathod, peryglu cyflwyno clefydau a'i gwneud yn anoddach ailgartrefu'r holl gathod sydd eisoes angen cartref yn y Deyrnas Unedig. Un ffordd fwy effeithiol o helpu cathod mewn angen dramor yw cefnogi elusennau lleol sy'n cynnal rhaglenni addysgu ac ysbaddu



# 4. Rhoi diwedd ar weithgareddau anaddas sy'n cynnwys cathod, gan gynnwys caffis cathod

## Y broblem

Mae rhai gweithgareddau sy'n caniatáu i bobl gymysgu â chathod mewn amgylcheddau cymdeithasol yn gallu peryglu lles cathod.

## Pam bod hyn yn bwysig

Gall caffis cathod achosi straen mawr i gathod, gan eu bod yn anifeiliaid annibynnol wrth natur ac ni fyddent fel arfer yn dewis byw mewn grwpiau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod gorfod bod yn agos at lawer o gathod eraill a gorfod rhannu bwyd, dŵr a mannau cuddio a chysgu yn gallu achosi straen a phryder. Mae cathod yn dibynnu ar amgylchedd sefydlog a chyfarwydd. Gall caffis cathod beri gofid i gathod, gyda gwahanol bobl yn mynd a dod ac arogleuon a synau dieithr yn amharu ar eu hymdeimlad o ddiogelwch. Er gwaethaf y pryderon lles hyn, rydym yn ymwybodol bod nifer o gaffis cathod yn cael eu rhedeg yng Nghymru ar hyn o bryd.

Nid yw gofal dydd i gathod, lle mae cathod yn cael gofal oddi cartref mewn lleoliad cymunedol tebyg i ofal dydd i gŵn, yn briodol i gathod. Fel caffis cathod, mae dod i gysylltiad â chathod a phobl anghyfarwydd a newydd bob munud yn achosi straen mawr i gathod a gall gael effaith aruthrol ar eu lles. Mae cathod hefyd yn diriogaethol ac mae ganddynt ymlyniad cryf â'u cartref. Mae'r rhan fwyaf o gathod yn gyfforddus ac yn fodlon gartref yn ystod oriau gwaith os cânt ddigon o fwyd, dŵr a gweithgareddau cyfoethogi. Ar gyfer absenoldebau hirach, mae Cats Protection yn argymell bod perchnogion yn trefnu i warchodwr cathod dibynadwy ofalu am eu cath yn y cartref neu ddewis llety cathod dibynadwy sy'n cynnig lle ar wahân ac sy'n darparu ar gyfer anghenion penodol pob cath. Dim ond pan fo hynny'n hanfodol y dylid teithio, gan fod hynny'n peri gofid i lawer o gathod.

Mae ioga cathod yn debygol o achosi straen i gathod am yr un rhesymau. Fel arfer, yn ystod sesiynau ioga, nid oes llawer o fannau cuddio i gathod ac yn aml mae eu blychau dŵr a'u bocs carthion mewn man arall na allant gyrraedd ato.

Mae Cats Protection yn credu na fyddai pobl sy'n poeni am les cathod eisiau iddynt gael eu hecsbloetio ac felly ni fyddent yn dymuno annog i sefydliadau fel hyn gael eu lansio.

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn rhoi'r bywyd gorau i gathod, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- cyflwyno rhestr o weithgareddau sy'n anaddas i anifeiliaid oherwydd yr effaith ar eu lles. Ar gyfer cathod, dylai hyn gynnwys caffis cathod, ioga cathod a gofal dydd cathod

"Mae cathod yn ffynnu ar drefn reolaidd ac mewn amgylchedd cyfarwydd. Mewn lleoedd fel caffis cathod neu sesiynau ioga, mae'r anghenion hyn yn aml yn cael eu diystyru. Gan fod cathod yn greaduriaid annibynnol wrth natur, maen nhw'n gallu teimlo straen cronig pan fyddan nhw'n cael eu gorfodi i fod yn agos at bobl ddieithr neu gathod eraill. Gall y straen hwn arwain at broblemau iechyd ac ymddygiad difrifol. Mae sŵn cyson, arogleuon newydd, a diffyg mannau diogel i encilio yn ychwanegu at eu gofid. Er bod ymdrechion i ailgartrefu drwy gaffis yn llawn bwriadau da, mae'r ansefydlogrwydd a'r newidiadau mynych yn aml yn niweidio lles cathod. Bwriedir yr amgylcheddau hyn fel arfer i roi blaenoriaeth i fwynhad y bobl nid i les y cathod."

**Elin Williams,**
**Ymddygiadwr Cymunedol Rhanbarthol**

# 5. Rheoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â chathod, gan gynnwys cribo chathod a lletya cathod

## Y broblem

Fel anifail anwes poblogaidd, mae nifer o wasanaethau a busnesau wedi cael eu creu i ddarparu ar gyfer cathod a'u perchnogion. Mae llawer o bobl sy'n cribo cŵn bellach yn cynnig gwasanaethau cribo cathod, gyda galw mawr yn arwain at sefydlu busnesau sy'n cribo cathod yn unig. Mae perchnogion cathod yn aml yn defnyddio gwarchodwyr cathod neu letyau cathod i ofalu am eu hanifeiliaid anwes pan fyddant i ffwrdd. Er bod lletyau cathod yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963, mae gweddill y gweithgareddau hyn yn dal i fynd rhagddynt heb eu rheoleiddio i raddau helaeth.

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae cathod yn anifeiliaid glân iawn ac yn hoffi ymolchi ond, weithiau, efallai y bydd arnynt angen ychydig o help. I rai cathod, os na chânt eu cribo'n rheolaidd, gall eu blew fynd yn gaglau ac yn anghyfforddus. Gall pobl sy'n gymwys i gribo helpu i osgoi problemau rhag datblygu ac atal yr angen i filfeddyg orfod tynnu'r caglau dan anesthetig.

Yn anffodus, nid oes dim i reoleiddio gwasanaethau cribo yng Nghymru ac nid oes angen cymhwyster sylfaenol ar neb i gynnig gwasanaeth cribo. Gall hyn beryglu lles corfforol a seicolegol cathod. Mae methu â thrin a thrafod cathod yn iawn yn gallu achosi straen difrifol iddynt; gall hyn arwain at broblemau ymddygiad, problemau iechyd, a gall hyd yn oed yr ymlyniad rhwng y perchennog a'r gath chwalu. Ceir pryderon hefyd ynghylch gwasanaethau cribo yn cynnig gwasanaeth glanhau dannedd heb anesthesia i gathod.

Mae llawer o berchnogion cathod yn dibynnu ar ffrindiau, teulu neu gymdogion caredig i ofalu am eu hanifeiliaid anwes annwyl pan fyddant i ffwrdd. Mae'r trefniadau anffurfiol hyn yn aml yn seiliedig ar berthnasoedd personol a dealltwriaeth ddofn o anghenion unigol y gath. Fodd bynnag, mae cyflogi gwarchodwr cathod masnachol yn gallu dod â'i risgiau ei hun. Mae'r busnesau hyn yn aml yn gwasanaethu nifer o gleientiaid, ac nid oes sicrwydd bod gan yr unigolion hyn yr hyfforddiant, y profiad na'r wybodaeth angenrheidiol am les cathod.

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn rhoi'r bywyd gorau i gathod, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- rheoleiddio gwasanaethau cribo cathod. Dylai'r amodau ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth cribo cathod feddu ar gymhwyster sylfaenol sy'n sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer trin a thrafod cathod sy'n gyfeillgar i gathod er mwyn bodloni gofynion y drwydded. Dylid cynnal archwiliadau i sicrhau nad yw gwasanaethau cribo yn tramgwyddo Deddf Milfeddygon 1966 drwy gynnig tawelydd ar gyfer cribo neu waith glanhau dannedd ymwthiol
- diweddaru'r ddeddfwriaeth ar letya anifeiliaid i adlewyrchu'r safonau lles modern a'r gwasanaethau a gynigir i ofalu am anifeiliaid anwes
- rheoleiddio gwasanaethau gwarchod cathod masnachol. Dylai'r amodau ei gwneud yn ofynnol i bob gwarchodwr cathod masnachol gwblhau cwrs hyfforddiant cydnabyddedig, sy'n dangos eu gwybodaeth am les cathod a gofal cathod yn unol â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a'r Cod Ymarfer ar Les Cathod



# Rhoi diwedd ar greulondeb at gathod



Mae cathod yn wynebu trais a chreulondeb yn llawer rhy aml. Mae cyfreithiau creulondeb at anifeiliaid wedi cael eu cryfhau yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae creulondeb bwriadol at gathod yn dal i ddigwydd. Mae Cats Protection yn galw am gyfreithiau cryfach i amddiffyn cathod rhag creulondeb.

- **Newid y gyfraith ar gŵn yn ymosod ar gathod** er mwyn dwyn perchnogion i gyfrif
- **Rhoi diwedd ar werthu a defnyddio dyfeisiau 'hyfforddi drwy gosbi' creulon fel sgiat-fatiau electronig a ffensys electronig,** sy'n codi ofn, poen a straen
- **Gwneud dwyn cathod yn drosedd benodol** i amddiffyn perchnogion a chathod rhag y straen a'r dioddefaint a achosir gan y drosedd hon

# 1. Creu trosedd benodol yn ymwneud â chŵn yn ymosod ar gathod

## Y broblem

Yn anffodus, mae cŵn yn ymosod ar gathod yn rhy aml o lawer. Mae'r rhan fwyaf o berchenogion cŵn yn gyfrifol ac yn cadw eu cŵn dan reolaeth. Fodd bynnag, pan fydd perchennog yn methu â rheoli ei gi ac mae'r ci yn anafu neu'n lladd cath, mae angen cryfhau'r gyfraith oherwydd gall ymosodiad o'r fath ddangos bod y ci yn beryglus ac allan o reolaeth.

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae cŵn yn ymosod ar gathod yn brofiad brawychus i'r gath, ei pherchennog a'r gymuned ehangach. Mae cathod yn aml yn cael eu lladd mewn ymosodiadau fel hyn, a gall tystion gael trawma hirdymor. Pan fydd ymosodiadau milain yn digwydd yn gyhoeddus, gall beri gofid mawr i'r gymuned gyfan.

**Dros y 10 mlynedd diwethaf yn y Deyrnas Unedig, adroddwyd yn y wasg am 425 o achosion o gŵn yn ymosod ar gathod.** Mae o leiaf 83% o'r ymosodiadau hyn yn angheuol, ac mae hyn, wrth gwrs, yn cael effaith aruthrol ar deulu'r gath. Efallai na fydd y cathod yn marw ar unwaith, ac mae llawer yn dioddef yn aruthrol cyn marw o'u hanafiadau.

Diwygiwyd Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 gan ymestyn y gyfraith i gynnwys ymosodiadau cŵn ar gŵn cymorth ond nid ymosodiadau ar anifeiliaid eraill.


Roedd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 hefyd wedi cyflwyno Hysbysiadau Diogelu'r Gymuned (CPN). Gall yr heddlu, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig roi Hysbysiadau Diogelu'r Gymuned i unrhyw un dros 16 oed i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â chŵn. Mae canllawiau'r llywodraeth yn cyfeirio'n benodol at lle byddai trothwy Hysbysiad Diogelu'r Gymuned yn cael ei fodloni os nad yw ci yn cael ei gadw dan reolaeth gan godi ofn y bydd y ci yn ymosod ar un neu fwy o gathod lleol ac yn eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol.[2]

Mae ymosodiadau cŵn ar gathod yn digwydd yng Nghymru ac mae Cats Protection yn poeni nad yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dwyn perchnogion cŵn i gyfrif yn ddigonol.

## Beth sydd angen newid?

I roi diwedd ar greulondeb at gathod, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- cyflwyno trosedd benodol mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chŵn peryglus er mwyn gallu erlyn perchnogion cŵn y mae eu cŵn yn ymosod ar gathod, yn eu hanafu neu'n eu lladd



[2] Defra a Llywodraeth Cymru Delio â pherchnogaeth anghyfrifol ar gŵn Llawlyfr Ymarferwr Hydref 2014

# 2. Gwahardd gwerthu a defnyddio dyfeisiau hyfforddi creulon

## Y broblem

Mae defnyddio coleri sioc electronig ar gathod wedi'i wahardd yng Nghymru er 2010. Fodd bynnag, mae nifer o wahanol ddyfeisiau hyfforddi electronig ar gael i addasu ymddygiad anifail, gan gynnwys 'sgiat-fatiau' electronig a fwriedir i hyfforddi'r anifail i osgoi rhannau penodol o'r cartref, a ffensys cyfyngu neu 'ffensys rhyddid' electronig, a ddefnyddir i gadw cathod o fewn ffiniau penodol, fel mewn gardd.  Mae'r dyfeisiau hyn yn rhoi sioc annymunol i orfodi'r anifail i gydymffurfio â'r ymddygiad y mae'r perchennog yn dymuno ei weld.

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae dyfeisiau hyfforddi drwy gosbi yn achosi poen yn ogystal ag yn peri ofn a straen. Gwyddom hefyd eu bod yn arwain at broblemau ymddygiad ac yn chwalu'r ymddiriedaeth rhwng y perchennog a'r anifail anwes.

Mae pob math o ddyfeisiau a fwriedir i achosi poen, neu deimladau annymunol eraill, yn cael yr un effaith ac maent yn ddrwg i iechyd a lles yr anifail.

## Beth sydd angen newid?

I roi diwedd ar greulondeb at gathod, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- gwahardd gwerthu a defnyddio dyfeisiau hyfforddi creulon fel sgiat-fatiau a ffensys cyfyngu electronig
- cryfhau Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010 drwy wahardd gwerthiant coleri sioc electronig
- cynnal ymgyrch addysg gyhoeddus am fanteision hyfforddiant atgyfnerthu cadarnhaol



# 3. Gwneud dwyn cath yn drosedd benodol

## Y broblem

Nid ydym yn gwybod beth yw gwir faint y broblem dwyn cathod yng Nghymru. Fodd bynnag, canfu Adroddiad ar ddwyn anifeiliaid anwes yn y Deyrnas Unedig yn 2025 mai cathod oedd yr anifail anwes a oedd yn cael ei ddwyn trydydd amlaf.[3] Dim ond crafu'r wyneb y mae hyn yn ôl pob tebyg, gan mai'r cyfan y mae'r rhan fwyaf o heddluoedd yn ei wneud yw cofnodi dwyn anifail anwes fel dwyn eiddo.

Nid oes data dibynadwy ar gael am ddwyn anifeiliaid anwes oherwydd nad yw cofnodion yr heddlu yn gwahaniaethu rhwng gwrthrychau ac anifeiliaid anwes. Fe wnaeth cais rhyddid gwybodaeth i Heddlu Gogledd Cymru yn 2025 dynnu sylw at ba mor anodd ydy adfer data ar achosion o ddwyn anifeiliaid anwes gan nad yw 'dwyn anifeiliaid' yn drosedd benodol ar eu system.[4]

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae cathod pedigri sy'n werthfawr yn ariannol yn dod yn fwyfwy poblogaidd, sy'n golygu bod dwyn cathod yn fwy deniadol i droseddwyr. Yn ôl *Adroddiad CATS Cymru 2025*, o'r cathod a brynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 49% ohonynt yn gathod pedigri o'i gymharu â 34% yn y flwyddyn flaenorol.[5] Mae troseddwyr yn gwybod eu bod yn gallu gwneud arian drwy ddwyn ac ailwerthu cathod neu, os nad yw cath wedi cael ei hysbaddu, drwy fridio.

Roedd *Adroddiad CATS Cymru 2025* hefyd yn dangos bod 94% o berchnogion yn ystyried bod eu cathod yn rhan o'r teulu, gan dynnu sylw at yr effaith y mae'r drosedd hon yn ei chael ar berchnogion cathod.[6]

Mae dwyn anifail anwes annwyl iawn yn achosi tor-calon i'r anifail anwes ac i'r perchnogion. Dyna pam mae Cats Protection yn credu na all fod yn iawn bod dwyn cath yn cael ei drin, yn gyfreithiol, yn yr un ffordd â dwyn ffôn symudol; fel pe baent yn wrthrych, rhywbeth y gellir prynu un arall yn ei le'n hawdd. Credwn fod yn rhaid i'r gyfraith gydnabod y cwlwm unigryw a geir rhwng cath a'u theulu a thrin dwyn o'r fath yn unol â hynny.

Yn 2024, fe wnaeth Deddf Herwgydio Anifeiliaid Anwes wneud dwyn cathod yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn drosedd benodol. Mae anifail anwes yn cael ei gydnabod fel creadur teimladol. Mae'r gyfraith newydd yn adlewyrchu'r boen a'r straen parhaus y mae'r anifeiliaid sy'n cael eu dwyn a'u perchnogion yn eu dioddef.

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn cydnabod bod cathod yn deulu, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- gwneud dwyn anifeiliaid anwes yn drosedd benodol i gydnabod yr effaith emosiynol ar y perchnogion a'r effaith ar les y gath. Byddai gwneud dwyn cathod yn drosedd benodol hefyd yn galluogi'r heddlu i helpu i gasglu data ar y drosedd ac atal digwyddiadau i'r dyfodol



[3] Adroddiad Dwyn Anifeiliaid Anwes ADT 2025
[4] northwales.police.uk/cy-GB/SysSiteAssets/foi-media/north-wales/disclosure-2025/2025-397-animal-thefts.pdf
[5,6] Adroddiad Cats Protection Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru 2025

# Diogelu cathod yn y byd digidol



Mae sawl rhan o'n bywydau yn bodoli yn y byd digidol, ac nid yw'n syndod bod cathod wedi dod yn rhan o hyn. Mae'r rhyngrwyd yn llawn cathod; fideos o gathod, jôcs cathod, lluniau o gathod, cyngor ar gathod a chathod ar werth. Yn anffodus, nid yw'r rheolau wedi cyrraedd lle mae angen iddynt fod eto. Mae cathod yn cael eu niweidio oherwydd diffyg gweithredu gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau eraill. Mae'r gwefannau hyn yn caniatáu'r 'trend' lle mae pobl yn niweidio eu cathod. Maen nhw hefyd yn caniatáu i gathod bach sy'n rhy ifanc ac yn rhy sâl gael eu gwerthu ar eu platfformau. Mae Cats Protection yn galw am weithredu i ddiogelu cathod yn y byd digidol.

- **Tynhau'r rheolau ar werthu cathod ar-lein** i wneud yn siŵr bod cathod a phrynwyr yn cael eu gwarchod
- **Annog hysbysebwyr a'r cyfryngau i ddangos cathod mewn ffordd gyfrifol**
- **Annog cwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol i gymryd cynnwys niweidiol o gathod o ddifrif.** Rydym yn galw am ddileu cynnwys sy'n cynnwys cam-drin anifeiliaid ar unwaith

# 1. Tynhau'r rheolau ar werthu cathod ar-lein

## Y broblem

Mae cathod yn cael eu prynu a'u gwerthu fwyfwy ar-lein, gan adael y cyhoedd yn agored i unigolion diegwyddor sy'n rhoi elw o flaen lles.

## Pam bod hyn yn bwysig

**Roedd 67% o'r holl gathod a brynwyd yn y Deyrnas Unedig yn y 12 mis wedi cael eu gweld ar-lein.[7]**

Wrth ddod o hyd i anifail anwes i'w brynu, mae darpar berchnogion yn chwilio am aelod o'r teulu. O'r funud y gwelant lun ciwt o'r gath, maen nhw'n buddsoddi'n emosiynol cyn iddyn nhw hyd yn oed anfon neges at y gwerthwr, ac mae hyn yn rhoi prynwyr mewn sefyllfa fregus.

Mewn rhai achosion, gallai hyn fod drwy dwyll uniongyrchol, fel postio lluniau o gath nad yw'n bodoli a gofyn am flaendal.

Ar adegau eraill, mae lles anifeiliaid yn cael ei beryglu hefyd, gyda phrynwyr yn cael eu twyllo i brynu cathod bach sâl neu dan oed. Cam-werthu yw'r enw ar hyn.

**Cofnododd Action Fraud dros 14,000 o adroddiadau am droseddau yn ymwneud â thwyll anifeiliaid anwes rhwng 2019 a 2025, ac roedd dros £7 miliwn wedi cael ei golli mewn sgamiau anifeiliaid anwes.**

Yn 2001, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon a gwella lles anifeiliaid anwes sy'n cael eu prynu a'u gwerthu, sefydlwyd y Grŵp Cynghori ar Hysbysebu Anifeiliaid Anwes (PAAG); mae Cats Protection yn un o aelodau'r grŵp hwn. Mae PAAG yn cyflwyno canllawiau hysbysebu i wella safonau, ac mae rhai o'r prif wefannau hysbysebion yn ymrwymo iddynt.

Nid yw pob gwefan yn dilyn canllawiau PAAG, ac nid yw'r cwmnïau cyfryngau cymdeithasol ychwaith er eu bod wedi tyfu'n rhan bwysig o'r farchnad anifeiliaid anwes. Er bod gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol eu rheolau eu hunain sy'n cyfyngu ar werthu anifeiliaid anwes, roedd 17% o bobl a oedd wedi prynu cathod yn y DU wedi dod o hyd iddynt ar Facebook[8].

## Beth sydd angen newid?

I ddiogelu cathod yn y byd digidol, mae Cats Protection yn galw am y canlynol:

- cwmnïau cyfryngau cymdeithasol i gau bylchau sy'n caniatáu i unigolion preifat a busnesau werthu anifeiliaid anwes ar eu platfformau
- unrhyw blatfform sy'n caniatáu gwerthu anifeiliaid anwes i gydymffurfio â safonau'r Grŵp Cynghori ar Hysbysebu Anifeiliaid Anwes
- y llywodraeth i barhau i dynnu sylw at y camau y mae angen eu cymryd wrth brynu anifail anwes ar-lein
- y llywodraeth ac awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r angen am drwydded i werthu anifeiliaid anwes, gweithio i wneud darpar brynwyr anifeiliaid anwes yn fwy ymwybodol o'r gofynion hyn ac adolygu effeithiolrwydd y rheoliadau sy'n ymwneud â gwerthu anifeiliaid anwes



[7], [8] Adroddiad Cats Protection Cathod a'u Hystadegau (Cats) Cymru 2025

# 2. Galw ar hysbysebwyr a'r cyfryngau i ddangos cathod mewn ffordd gyfrifol

## Y broblem

Mae'r diwydiant hysbysebu a'r cyfryngau yn aml yn defnyddio cathod yn eu cynnwys. Os caiff anifeiliaid anwes eu cynrychioli'n anghyfrifol, gall hyn arwain at boblogeiddio bridiau sydd â chyflyrau iechyd hysbys neu hyrwyddo ymddygiad sy'n niweidiol i gathod.

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae anifeiliaid yn ennyn ymateb emosiynol ac yn tynnu sylw at gynnwys mewn marchnad orlawn.

Ond ni ddylai hysbysebwyr a chynhyrchwyr y cyfryngau fod yn peryglu lles anifeiliaid er mwyn cael mwy o bobl i 'glicio' neu 'newid ymddygiad'.

Ymysg y problemau cyffredin y mae defnyddio cathod sydd â nodweddion eithafol, ac y mae hysbysebwyr a gwneuthurwyr ffilmiau yn ystyried eu bod yn unigryw o bosibl, ond maen nhw'n dioddef problemau iechyd a lles aruthrol yn anffodus. Mae cathod hefyd yn cael eu gwisgo mewn dillad neu ategolion ar gyfer hysbysebion; mae hyn yn gallu cyfyngu ar symudiad cath ac achosi straen. Maen nhw wedi cael eu portreadu mewn sefyllfaoedd sy'n achosi straen i gathod, gan atgyfnerthu camddealltwriaeth o'u hanghenion ac atal ymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â chydnabod straen a lles negyddol.

Mae'r rhai sy'n defnyddio anifeiliaid yn y cyfryngau yn ddylanwadol iawn; mae'n hanfodol eu bod yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn a wnânt ac nad ydy esgeuluso lles cathod yn cael ei normaleiddio.

Mae Cats Protection wedi creu **canllawiau** ar gyfer hysbysebwyr sy'n defnyddio cathod.

## Beth sydd angen newid?

I ddiogelu cathod yn y byd digidol, mae Cats Protection yn galw am y canlynol:

- yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu i adolygu ei chanllawiau a chryfhau ei safbwynt ar hyrwyddo amodau lles gwael neu gathod gyda nodweddion sy'n peri pryder
- hysbysebwyr, gwneuthurwyr ffilm a chynnwys eraill sy'n defnyddio anifeiliaid i adolygu eu safonau mewnol eu hunain a gweithio gydag elusennau lles i weithredu polisïau i osgoi normaleiddio amodau lles gwael neu hyrwyddo nodweddion ffisegol sy'n peri pryder



# 3. Annog y cwmnïau cyfryngau cymdeithasol i gymryd cynnwys niweidiol o gathod o ddifrif

## Y broblem

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo cynnwys sy'n dangos cathod mewn gofid, o gynnwys y mae pobl yn meddwl sy'n 'hwyl', i gamdriniaeth lwyr.

## Pam bod hyn yn bwysig

**Mae 81% o berchnogion cathod yng Nghymru yn dweud eu bod yn edrych ar luniau neu fideos doniol neu giwt o gathod ar-lein o leiaf unwaith y mis. Mae 29% yn edrych ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â chathod.**[9]

Er bod y we yn gallu bod yn ffynhonnell wych i ddod o hyd i wybodaeth am les ac ymddygiad cathod, ceir hefyd lawer iawn o gynnwys cathod y mae pobl yn meddwl ei fod yn 'hwyl' ond sy'n achosi gofid i gathod mewn gwirionedd. Mae 'trend' o amgylch y math hwn o gynnwys yn gallu datblygu'n gyflym, gyda defnyddwyr yn herio ei gilydd i gynnwys eu cathod a rhannu fideos.

Mae cam-drin cathod yn gwbl agored ar-lein yn achosi mwy fyth o bryder. Adroddwyd am ffrydiau byw sy'n dangos cathod yn cael eu harteithio a'u lladd. Mae hyn nid yn unig yn arwain at ganlyniadau trasig i gathod, ond gall unrhyw un sy'n ddigon anffodus i ddod ar draws y cynnwys hwn gael trawma hirdymor.

Mae Cats Protection yn aelod o Gynghrair Creulondeb i Anifeiliaid y Cyfryngau Cymdeithasol (SMACC). Rydym yn annog unrhyw un i beidio â gwylio na rhannu cynnwys sy'n dangos creulondeb; yn hytrach, rydym yn eu cynghori i'w riportio.

## Beth sydd angen newid?

I ddiogelu cathod yn y byd digidol, mae Cats Protection yn galw ar gwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol i wneud y canlynol:

- cael gwared ar unrhyw gynnwys sy'n dangos anifeiliaid yn cael eu cam-drin ar unwaith a dweud wrth unrhyw awdurdodau perthnasol

"Mae'r rhyngrwyd yn llawn fideos hoffus a doniol o gathod. Yn anffodus, mae'n bosibl gweld ochr dywyll i gynnwys cathod ar-lein. Mae rhai 'trendiau' sy'n chwalu fel tân gwyllt yn gallu dangos perchnogion cathod yn achosi niwed neu ofid i'w cathod heb sylweddoli hynny. Rydyn ni hefyd wedi gweld fideos sy'n cynnwys camwybodaeth am gathod, a allai arwain at amodau lles gwael. Mae fideos mwy eithafol sy'n cynnwys cam-drin cathod wedi ymddangos ar nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn ein helpu ni i fynd i'r afael â hyn, mae Cats Protection yn aelod o Gynghrair Creulondeb i Anifeiliaid y Cyfryngau Cymdeithasol (SMACC). Mae SMACC yn gynghrair sydd â'r nod o roi diwedd ar y doreth o gynnwys creulondeb at anifeiliaid sydd i'w cael ar y cyfryngau cymdeithasol, drwy gydweithio â'r platfformau i sicrhau nad yw'r cynnwys hwn ar gael, na all neb ei ledaenu, na gwneud elw ohono.

"Os ydych chi'n dod ar draws unrhyw gynnwys creulondeb at gathod ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn 'pum cam i roi terfyn ar greulondeb ar-lein' SMACC: bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n greulon, peidio â'i wylio, peidio â dangos ymateb i'r cynnwys, peidio â'i rannu, a dweud wrth y platfform."

**Jade Emery-Temprano,**
**Rheolwr Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd**

[9] Adroddiad Cats Protection Cathod a'u Hystadegau (Cats) Cymru 2025

# Cydnabod bod cathod yn deulu



Mae'r rhan fwyaf o berchnogion cathod yn ystyried bod eu cath yn rhan o'u teulu. Mae cathod yn gwmni ac yn help mawr i lawer o bobl. Gall bod heb eu cath, er enghraifft, os bydd y gath ar goll neu wedi'i dwyn, fod yn drychinebus. Mae Cats Protection yn galw am gydnabod pwysigrwydd cathod i'w teuluoedd. Rydym yn cefnogi cyfreithiau sy'n cadw cathod a'u perchnogion gyda'i gilydd.

- **Cyflwyno rheol i'w gwneud yn orfodol i gathod anwes gael microsglodyn a chreu un pwynt chwilio i gronfeydd data** microsglodion i helpu i ddychwelyd cathod at eu teuluoedd a gwneud y broses o chwilio am fanylion yn haws
- **Annog tai rhent sy'n addas i anifeiliaid anwes** a lleihau'r rhwystr hwn sy'n atal pobl rhag bod yn berchen ar anifail anwes
- **Cynnwys lles anifeiliaid yn y cwricwlwm** i helpu i atal anifeiliaid rhag cael eu cam-drin
- **Cydnabod manteision cathod i les pobl** drwy wneud rhagor o ymchwil i unigrwydd ac ystyriaethau cymdeithasol eraill
- **Codi ymwybyddiaeth o'r broblem o bobl yn 'celcio' cathod ac yn cadw gormod o gathod mewn tŷ** er mwyn gwella lles cathod a phobl

# 1. Cyflwyno rheolau i'w gwneud yn orfodol i gathod anwes gael microsglodyn a chreu un man chwilio i gronfeydd data microsglodion

## Y broblem

Mae Cats Protection yn credu bod yn rhaid gosod microsglodyn ar bob cath sydd â pherchennog er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gael eu hadnabod a'u dychwelyd at eu perchennog. Yng Nghymru, nid oes gan ddwy ran o dair o'r cathod sy'n dod atom ficrosglodyn.

## Pam bod hyn yn bwysig

Y ffordd orau o ddychwelyd cathod sydd ar goll, sydd wedi cael eu gadael neu'u dwyn, at eu perchnogion yw drwy fanylion y microsglodyn. Os bydd rhywun yn dod o hyd i'r gath wedi'i hanafu ac yn mynd â hi at filfeddyg, gyda'r manylion hynny gall y milfeddyg gysylltu â'r perchnogion. Os bydd rhywun yn dod o hyd i gath sydd wedi marw'n anffodus, bydd manylion y microsglodyn, os ydynt yn ddiweddar, o leiaf yn rhoi atebion i'r perchennog.

Cathod strae heb ficrosglodyn yw un o'r prif resymau pam mae cathod yn dod dan ein gofal. Rydym yn annog perchnogion i roi microsglodyn i'w cathod a diweddaru eu manylion. Mae hyn yn atal cathod rhag cael eu hailgartrefu'n ddiangen ac yn rhyddhau lle ar gyfer y cathod sydd fwyaf ein hangen.

Gall fod yn anodd i awdurdodau cymeradwy ddod o hyd i berchennog cath, gan fod nifer o gronfeydd data microsglodion a gymeradwyir gan y llywodraeth yn cael eu rhedeg, ynghyd â rhai safleoedd ffug. Dylai'r broses o chwilio am fanylion perchennog fod mor hawdd â phosibl, gan ddiogelu data personol unigolion ar yr un pryd.

Mae Cats Protection wedi creu canllawiau sganio **(bit.ly/scanningbestpracticeguide)** ar gyfer awdurdodau lleol ar sut i sganio cathod sydd wedi dioddef damwain traffig i weld a oes ganddynt ficrosglodion ac i roi gwybod i'r perchnogion

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn cydnabod bod cathod yn deulu, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- ei gwneud yn orfodol i gathod anwes sydd dros 20 wythnos oed gael microsglodyn
- gweithio gyda llywodraethau eraill y Deyrnas Unedig i greu un pwynt chwilio i awdurdodau perthnasol sy'n sganio microsglodion. Byddai hyn yn golygu bod modd darllen y sglodyn mor gyflym ac effeithlon â phosibl



# 2. Annog landlordiaid i gynnig tai rhent sy'n addas i anifeiliaid anwes

## Y broblem

Mae cael anifail anwes yn gallu bod yn fraint ar gyfer pobl sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain yn unig. Mae Cats Protection yn credu na ddylai rhentu eich cartref eich rhwystro rhag bod yn berchen ar gath.

## Pam bod hyn yn bwysig

I lawer o bobl, mae cath yn fwy na dim ond anifail anwes, mae'n deulu. Mae tenantiaid yn cael eu hamddifadu o'r gwmnïaeth a'r pleser o gael cath dim ond oherwydd nad yw eu tenantiaeth yn caniatáu anifeiliaid anwes. Mae'n gallu bod yn dorcalonnus pan fydd rhywun yn gorfod dewis rhwng ei anifail anwes annwyl a chartref.

Canfu *Adroddiad CATS 2025* nad oes gan dros hanner miliwn o aelwydydd gath, er y byddent yn hoffi cael un, oherwydd bod eu cytundebau rhentu yn gwahardd hynny. Yng Nghymru, mae materion sy'n ymwneud â landlord **yn drydydd yn y pum rheswm mwyaf cyffredin** pam mae cathod yn dod i ofal ein Canolfannau Cathod.

**Canfu arolwg YouGov[10] o landlordiaid yn 2021 mai difrod i'r eiddo yw'r prif reswm dros beidio â chaniatáu anifeiliaid anwes, ac eto dywedodd 73% o landlordiaid y DU sydd wedi caniatáu anifeiliaid anwes nad oeddent wedi cael dim problem**

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn cydnabod bod cathod yn deulu, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- rhoi hawl i denantiaid wneud cais i ofyn am anifail anwes, cais na ellir ei wrthod yn afresymol

## Sut gallwch chi helpu

Gallwch **gael gwybod mwy** am ein hymgyrch landlordiaid a helpu i newid y ffordd rydym yn edrych ar berchnogaeth cathod mewn llety rhent.



[10] Arolwg yn 2021 o landlordiaid, asiantau gosod a thenantiaid ar anifeiliaid anwes ac eiddo rhent, a gynhaliwyd gan YouGov ar ran Cats Protection a Dogs Trust

# 3. Cynnwys lles anifeiliaid yn y cwricwlwm

## Y broblem

Plant yw perchnogion anifeiliaid anwes y dyfodol, ac mae'n hanfodol eu bod yn gadael yr ysgol gyda dealltwriaeth sylfaenol o sut i barchu a gofalu am anifeiliaid.

## Pam bod hyn yn bwysig

Byddai addysgu plant am sut i ofalu am anifeiliaid anwes o fudd i ddatblygiad emosiynol plentyn, gan roi cyfle i ddeall yn well a thrafod mwy am ofalu am eraill, dangos empathi a chyfrifoldeb.

Bydd helpu plant i ddeall sut i ofalu'n gyfrifol am anifeiliaid anwes hefyd yn helpu i leihau achosion o bobl yn gadael eu hanifeiliaid ac yn greulon tuag atynt i'r dyfodol.

Mae ymchwil i effeithiolrwydd rhaglenni lles anifeiliaid yn dangos manteision eang i ddatblygiad personol pobl ifanc, gan gynnwys:

- gwell gwybodaeth am les anifeiliaid
- gwell agweddau at anifeiliaid
- gwell ymddygiad sydd o blaid cymdeithas ac empathi
- mewn plant mor ifanc â thair oed, roedd trafod anifeiliaid yn eu galluogi i ddatblygu eu gallu i uniaethu, gan gynyddu eu gallu i gysylltu anghenion anifeiliaid ag anghenion pobl
- mewn plant hŷn (naw i 11 oed), gwelodd athrawon gynnydd mawr mewn ymddygiad sydd o blaid cymdeithas fel bod yn gyfeillgar a dangos tosturi ac uniaethu â theimladau pobl eraill

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn cydnabod bod cathod yn deulu, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- cynnwys addysg lles anifeiliaid yn y cwricwlwm ar gyfer pob plentyn
- comisiynu ymchwil i'r cysylltiadau rhwng addysg lles anifeiliaid ac atal problemau creulondeb i anifeiliaid ac esgeulustod, a lleihau nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg oedolion
- trafod gydag elusennau lles anifeiliaid, gan gynnwys Cats Protection, sut i gynnwys materion sy'n ymwneud â gofalu'n gyfrifol am les anifeiliaid anwes yn y cwricwlwm

Mae Cats Protection yn rhoi sgyrsiau i blant mewn ysgolion, sefydliadau ieuenctid a grwpiau cymunedol i'w helpu i ddysgu sut i ofalu am gathod. Mae ein gwefan bwrpasol yn cats.org.uk/education yn llawn adnoddau i athrawon a gweithgareddau addysgol, hwyliog.

"Lles anifeiliaid ar y cwricwlwm fyddai'r canlyniad gorau ac mae'n rhywbeth rydym wedi bod yn gofyn amdano ers blynyddoedd lawer. Byddai'n gam sylweddol a blaengar sy'n sicrhau bod tosturi, empathi a chyfrifoldeb tuag at anifeiliaid yn cael eu gwreiddio fel gwerthoedd craidd o oedran cynnar iawn."

**Kelly Matthews,**
**Swyddog Addysg Gymunedol**

# 4. Cydnabod manteision cathod i les pobl

## Y broblem

Mae cathod yn greaduriaid teimladol, ac mae'n bwysig ystyried eu lles ochr yn ochr â lles eu perchennog. Fodd bynnag, gall yr ymlyniad rhwng perchennog a chath fod yn llesol iawn i'r ddau.

Gall cael cysylltiad â chath neu fod yn berchen ar gath fod yn rhan o amrywiol ymyriadau mewn cymdeithas sy'n gallu helpu â theimladau o unigrwydd.

Mae Cats Protection yn credu bod cath yn gallu bod yn gwmni gwerthfawr iawn, a bod yn rhaid cydnabod y manteision helaeth hyn i'w perchnogion ym mhob penderfyniad polisi perthnasol.

## Pam bod hyn yn bwysig

Yng Nghymru mae gan tua 480,000 o gathod berchnogion, gydag un o bob pedair aelwyd (24%) yn berchen ar gath[11]. Gall y cysylltiad rhwng cath a'i pherchennog esgor ar fanteision enfawr i iechyd meddwl ac i leddfu unigrwydd.


Canfu *Adroddiad CATS Cymru 2025* mai'r manteision lles o fod yn berchen ar gath ydy'r prif reswm dros gadw cath; gyda chwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen, gyda'i gilydd, yn brif resymau pam bod pobl Cymru yn dewis cadw cath (51%).

Ceir corff eang o ymchwil sy'n dangos manteision cadw cath i les pobl. Yn wir, mae'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn tynnu sylw at sut gall anifail anwes fod yn ffynhonnell gysur a chymhelliant wych. Hefyd, mae Cymdeithas y Plant yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn hysbys bod anifeiliaid anwes yn helpu i leihau pryder drwy gynnig cwmni i'w perchnogion, yn enwedig i bobl ifanc.

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn cydnabod bod cathod yn deulu, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- comisiynu rhagor o ymchwil i sut gall bod yn berchen ar anifeiliaid anwes helpu i leddfu unigrwydd, er mwyn gallu deall manteision anifeiliaid anwes yn iawn
- annog gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ystyried rôl anifeiliaid anwes mewn presgripsiynu cymdeithasol. Gall hyn gynnwys gwirfoddoli gydag elusen lles anifeiliaid
- gweithio'n agos gydag elusennau lles anifeiliaid i annog mwy o gartrefi gofal a thai ymddeol i ganiatáu i breswylwyr newydd gael cathod



[11] Adroddiad Cats Protection Cathod a'u Hystadegau (Cats) Cymru 2025

# 5. Codi ymwybyddiaeth o'r broblem o bobl yn 'celcio' cathod ac yn cadw gormod o gathod mewn tŷ

## Y broblem


Mae celciwr anifeiliaid yn unigolyn sydd wedi cronni nifer fawr o anifeiliaid nad yw'n gallu gofalu amdanynt yn iawn. Efallai nad oes gan yr anifeiliaid fwyd, lloches, gofal milfeddygol nac amgylchedd glân priodol. Gall achosion o gelcio anifeiliaid arwain at beryglu'r anifeiliaid a'r celciwr.

**Mae celcio'n effeithio ar tua 2 i 5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig, gydag Anhwylder Celcio Anifeiliaid/Syndrom Noa yn cael ei gydnabod fel is-set benodol i anhwylder celcio.**[12]

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae llawer o resymau cymhleth pam y gallai rhywun ddechrau celcio cathod, gallent gynnwys casglu anifeiliaid ar ôl profedigaeth neu ddigwyddiad trawmatig, neu pan fydd person caredig yn 'achub' gormod o anifeiliaid rhag bywyd ar y stryd. Ar gyfartaledd, mae tua 44 i 64 o anifeiliaid yn cael eu cadw ym mhob achos o gelcio.[13] Yn anffodus, beth bynnag fo'r cymhelliant, mae celcio cathod yn creu problemau lles i gathod a phobl.

Mae celcio cathod yn aml yn gymhleth a rhaid delio â'r mater yn dosturiol. Efallai y bydd cywilydd yn atal llawer rhag gofyn am help rhag ofn iddynt gael eu barnu neu'u cosbi. Oherwydd bod celcio anifeiliaid yn cael ei ystyried yn anhwylder iechyd meddwl, mae unigolion yn aml yn methu â rhoi bwyd, dŵr, glanweithdra na gofal milfeddygol digonol i'r anifeiliaid dan eu gofal. Efallai eu bod hefyd yn gwadu na allant ddiwallu'r anghenion sylfaenol hyn, ac mae hyn yn gallu cymhlethu ymhellach yr ymdrechion i ymyrryd.



[12] The Institute for Research and Innovation in Social Services (Iriss) Effects of Clutter or Hoarding on people affected by it a Nadal Z, Ferrari M, Lora J, Revollo A, Nicolas F, Astegiano S, et al. Noah's Syndrome: Systematic Review of Animal Hoarding Disorder

[13] Wilkinson J, Schoultz M, King HM, Neave N, Bailey C. Animal hoarding cases in England: Implications for public health services. Front Public Health a Nadal Z, Ferrari M, Lora J, Revollo A, Nicolas F, Astegiano S, et al. Noah's Syndrome: Systematic Review of Animal Hoarding Disorder

Mae celcio cathod yn achosi amrywiaeth o oblygiadau iechyd a lles i gathod a phobl, gan gynnwys:

- **newyn a syched** gan nad oes digon o fwyd a dŵr ar gael. Gall diffyg adnoddau hefyd arwain at ddiffyg maeth ac afiechyd mewn cathod, fel clefyd deintyddol
- **gorlenwi a glanweithdra gwael,** sy'n arwain at ledaenu clefydau heintus a pharasitiaid fel ffliw cathod a derwinod
- **ymddygiad ymosodol rhwng cathod ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â straen** fel chwistrellu wrin, pasio wrin/carthion yn amhriodol, ac ymladd, rhywbeth sy'n aml yn cael ei achosi gan orlenwi cymdeithasol a chystadlu am adnoddau prin
- **cathod benyw yn beichiogi drosodd a drosodd,** gan ychwanegu at nifer y cathod a mwy o straen ar adnoddau
- **clefydau genetig oherwydd mewn-fridio,** a allai arwain at ddiffygion cynhenid ac iechyd gwael
- mae **caethiwo a diffyg cymdeithasu,** a'r straen cyson o fyw mewn amodau gwael, yn achosi gofid seicolegol ac yn ychwanegu at ansawdd bywyd gwael. Gall anifeiliaid ddatblygu problemau ymddygiad tymor hir fel bod yn ofnus, yn ymosodol neu'n bryderus
- **pla chwain, llyngyr a pharasitiaid eraill,** sy'n gallu effeithio ar anifeiliaid a phobl
- **peryglon iechyd yr amgylchedd,** fel wrin ac ysgarthion ym mhobman, arogleuon cryf, a mannau byw yn cael eu halogi
- **mae risgiau iechyd y cyhoedd,** amodau aflan ac anifeiliaid a phobl yn byw'n agos at ei gilydd yn cynyddu'r risg o drosglwyddo clefydau milheintiol

Yn anffodus, mae anifeiliaid marw yn aml yn gymysg ag anifeiliaid sâl ac iachach. Canfu astudiaeth yn 2022 fod 53% o achosion o gelcio anifeiliaid yn cynnwys anifeiliaid marw neu anifeiliaid sydd angen eu rhoi i gysgu, a cheir anifeiliaid marw mewn 32.9% o achosion.[14]

# Beth sydd angen newid?

Er mwyn cydnabod bod cathod yn deulu, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd am bryderon lles celcio cathod a'i ganlyniadau
- nodi neu greu gwasanaeth sy'n gyfrifol am fonitro ac ymateb i ddigwyddiadau o gelcio anifeiliaid. Byddai hyn yn creu system adrodd gadarn ac fe allai greu system sy'n cael ei hariannu'n well i gefnogi ymdrechion i ymyrryd
- ariannu ymchwil i ddeall celcio anifeiliaid yn well fel cyflwr iechyd meddwl a pha ymyriadau sy'n gweithio i atal celcio yn y dyfodol
- cyflwyno addysg i gymdeithasau tai, awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol am gelcio cathod a sut i adnabod yr arwyddion a chynnig cymorth a gwaith i atal celcio yn y dyfodol



[14] Wilkinson J, Schoultz M, King HM, Neave N, Bailey C. Animal hoarding cases in England: Implications for public health services. Front Public Health

# Cadw cathod yn ddiogel



Mae cathod weithiau'n cael eu rhoi mewn perygl oherwydd rhannau o'n bywyd nad ydyn ni efallai'n sylweddoli eu bod yn effeithio arnyn nhw. Maen nhw'n gallu cael eu niweidio'n ddamweiniol gan bethau sy'n hyfryd i lawer, fel arddangosfeydd tân gwyllt a rhai blodau. Mae Cats Protection yn galw am weithredu i gadw cathod yn ddiogel.

- **Manwerthwyr i roi gwell labeli ar gynnyrch sy'n wenwynig i gathod, fel lilis,** rhag iddynt gael eu gwenwyno'n ddamweiniol
- **Cyfyngu ar ddefnyddio tân gwyllt** i atal y gofid maent yn gallu ei achosi i bobl ac anifeiliaid

# 1. Annog cwmnïau i roi gwell labeli ar gynhyrchion gwenwynig fel lilis

## Y broblem

Mae lilis yn hynod o wenwynig i gathod.

**Nid yw 51% o berchnogion cathod yn ymwybodol o'r perygl y bydd dod â lilis i'w cartref yn ei achosi i'w cath annwyl.[15]**

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae pob rhan o'r lili yn wenwynig i gathod os gwnânt eu llyncu, o'r paill, y dail a'r coesyn i'r dŵr yn y fâs lle mae'r lilis wedi sefyll. Mae'r llwybr gwenwyno mwyaf cyffredin yn cael ei achosi gan gathod yn cael paill ar eu blew ac yna'n bwyta'r paill hwn wrth ymolchi. Mae lilis heb baill wedi cael eu marchnata fel rhai sy'n 'ddiogel i gathod', ond nid yw hyn yn wir; mae gweddill y planhigyn yr un mor angheuol os caiff ei lyncu. Mae pob planhigyn yn nheulu'r Liliwm (gwir lili) yn gallu bod yn angheuol i gathod, gan achosi niwed i'r arennau sy'n gallu arwain at fethiant yr arennau a marwolaeth, os na chaiff ei drin.

Gall fod yn anodd adnabod yr arwyddion cynnar bod cath wedi'i gwenwyno, ac felly yn aml nid yw cathod sy'n cael gwenwyn lili yn cael y driniaeth frys sydd ei hangen arnynt i achub eu bywyd. Yn anffodus, yn rhy aml o lawer, nid yw tuswau sy'n cynnwys lilis a phlanhigion lili yn rhoi rhybudd neu, os ydynt, mae ynghudd ar gefn y label.

Nid yw llawer o adwerthwyr blodau ar-lein yn cynnwys rhybuddion wrth ymyl lluniau o duswau blodau sy'n cynnwys lilis, ac mae rhai hyd yn oed yn rhestru lilis heb baill fel rhai sy'n 'addas i anifeiliaid anwes'.

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn cadw cathod yn ddiogel, mae Cats Protection yn galw ar fanwerthwyr i wneud y canlynol:

- sicrhau bod labeli clir ar bob tusw sy'n cynnwys lilis i rybuddio defnyddwyr am y risg i anifeiliaid anwes. Dylai'r rhybudd fod yn amlwg ac ni ddylai fod yn hawdd ei dynnu (er enghraifft, ddim ar y tag pris) i sicrhau bod y rhai sy'n derbyn y blodau fel rhodd yn ymwybodol o'r perygl i gathod
- sicrhau bod lilis a werthir ar-lein yn cynnwys nodyn clir, sy'n cael ei ailadrodd wrth y til, i rybuddio cwsmer os oes lilis yn y tusw fel eu bod yn ymwybodol o'r risgiau



## Astudiaeth achos: Nova

Bu farw'r gath 18 mis oed Nova ar ôl iddi rwbio heibio planhigyn lili gartref a llyfu'r paill oddi ar ei blew. Roedd ei pherchennog wedi prynu'r planhigyn i'w fwynhau yn ystod cyfnod y Nadolig, ond yn anffodus nid oedd yn ymwybodol bod lilis yn beryglus i gathod.

[15] Adroddiad Cats Protection Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru 2025

# 2. Cyfyngu ar ddefnyddio tân gwyllt

## Y broblem

Mae'r rhan fwyaf o berchnogion cathod yn gwybod bod tân gwyllt yn gallu dychryn a chynhyrfu anifeiliaid anwes.

**61% o berchnogion cathod yn dweud bod tân gwyllt wedi effeithio ar eu cath.[16]**

## Pam bod hyn yn bwysig

Mae cathod yn cysylltu fflachiadau a ffrwydradau uchel â pherygl a bygythiad i'w diogelwch corfforol, felly eu hymateb naturiol yw mynd oddi yno ar eu hunion. Fodd bynnag, oherwydd ei bod yn amhosibl iddynt ddeall o ble mae'r sŵn yn tarddu, byddant yn aml yn bolltio i gyfeiriad anffafriol, a allai olygu eu bod yn mynd ar goll neu'n cael eu hanafu (er enghraifft, drwy redeg i ganol traffig).

Hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cadw yn y tŷ pan fydd tân gwyllt yn cael ei danio, mae cathod yn aml yn teimlo dan straen ac yn bryderus oherwydd y sŵn ei hun a'i natur annisgwyl.

## Beth sydd angen newid?

Er mwyn cadw cathod yn ddiogel, mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud y canlynol:

- cyfyngu ar ddefnyddio tân gwyllt heb ei drefnu. Dim ond yn ystod adegau penodol, gyda rhybudd ymlaen llaw, y dylid defnyddio tân gwyllt wedi'i drefnu er mwyn i berchnogion anifeiliaid anwes allu cymryd camau i gadw eu cathod yn ddiogel
- lleihau'r lefelau sŵn uchaf a ganiateir oddi wrth dân gwyllt er mwyn helpu i leddfu'r straen i gathod, anifeiliaid eraill ac yn wir i lawer o bobl



[16] Adroddiad Cats Protection Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru 2025

I gael gwybod rhagor, ewch i: cats.org.uk/manifesto-wales

Chwiliwch am eich canolfan Cats Protection leol: **cats.org.uk/find-us**

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: **advocacy@cats.org.uk**

Mae Cats Protection yn elusen gofrestredig 2035444 (Cymru a Lloegr, SC037711 (Yr Alban) ac mae wedi'i restru fel sefydliad Adran 167 gan Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon. | ADV_26_19